| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **12 MAI 2011** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **DYFARNU TENDRAU** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **YMATEB I GAIS AM ADRODDIAD A WNAED YNG NGHYFARFOD Y CYNGOR SIR YM MIS MAWRTH** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH GWASANAETH (CYLLID)** |
| **CYSYLLT :** | **DAVID ROSS - SWYDDFA CAFFAEL CORFFORAETHOL** |
| **GWEITHREDU:** | **ER GWYBODAETH** |

## 1. Cefndir a Chyd-destun

**1.1** Yn y cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ym mis Mawrth, gofynnwyd cwestiynau am y prosesau yr oedd y Cyngor wedi eu mabwysiadu ar gyfer dyfarnu contractau, a chadarnhaodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid y gellid cyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Cyngor. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio rhoi rhywfaint o wybodaeth gefndirol ar y mater.

**1.2** Mae'r Cyngor yn gwario oddeutu £90m bob blwyddyn i brynu nwyddau ac i gomisiynu gwaith a gwasanaethau. Mae gwahanol fathau o bwysau yn cael eu rhoi ar y Cyngor - weithiau rhai sy'n gwrthdaro â'i gilydd - i gael gwerth am arian o fewn cyllidebau sy'n gostwng (sy'n cael ei weld fel prynu'n rhad fel arfer) tra'n sicrhau bod gwasanaethau neu nwyddau a brynir o safon briodol i gwrdd â'n hanghenion, ac i wneud hynny o fewn fframwaith cyfreithiol cymhleth sy'n adlewyrchu cyfraith pwrcasu'r Deyrnas Gyfunol a'r Undeb Ewropeaidd a Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor ei hun. Gellir gweld yr arian a werir gan y Cyngor, os yw'n cael ei reoli'n briodol, fel hwb, o bosib, i'r economi leol ac mae pwysau naturiol yn codi o du busnesau i geisio sicrhau cyfran briodol o'r gwariant hwnnw. Mae mentrau polisi gan y Llywodraeth yn Whitehall ac yng Nghaerdydd yn hyrwyddo'r defnydd o gynlluniau pwrcasu cydweithredol fel modd o sicrhau arbedion trwy gontractau mwy, gan annog, ar yr un pryd, fabwysiadu amrediad o gynlluniau eraill (er enghraifft "materion gwyrdd", defnydd o TGCh ar gyfer tendro electronig ac e-fasnach, a llu o faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a materion tebyg) a all atal cyflenwyr llai rhag ystyried gweithio gyda'r sector cyhoeddus.

## 2. Gwario'n lleol?

**2.1** Mae'n werth rhoi rhywfaint o sylw i wariant allanol y Cyngor ar nwyddau a gwasanaethau. Mae o gwmpas un rhan o dair o wariant blynyddol y Cyngor ar faterion o'r fath yn mynd i sefydliadau a chanddynt gôd post yn Ynys Môn fel eu cyfeiriad talu. Yn ogystal, mae chwarter arall yn mynd i sefydliadau a chanddynt gôd post yng Ngogledd Cymru. Mae 6 o gontractwyr mwyaf y Cyngor gyda chodau post y tu allan i'r rhanbarth ac yn cynrychioli o gwmpas 20% o'n gwariant, ac maent yn darparu gwasanaethau fel gwasanaethau casglu gwastraff, cynnal tiroedd, cynnal priffyrdd, prydau ysgol a'r prif gontractwr ar gyfer gwelliannau tai dan y rhaglen SATC. Mae contractau o'r fath yn llafur ddwys eithriadol ac maent yn cyflogi trigolion lleol yn bennaf. Mae hyn yn golygu bod cyfran sylweddol o wariant y Cyngor - oddeutu 80% - yn mynd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i fusnesau neu weithwyr lleol.

**2.2** Mae'r mater olaf hwn yn hollbwysig o ran y pryderon a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor - nid oes ots i le rydym yn talu'r bil, yr hyn sy'n bwysig yw ym mhle mae'r gwariant yn cael effaith. Yn y cyswllt hwn, gall contract gwasanaeth, gydag ystyriaethau llafur mawr, gael mwy o effaith o lawer ar yr economi leol na chontract cyflenwadau lle mae'r nwyddau a brynir yn cael eu gwneud yn rhywle arall ac yn cael eu dosbarthu yn y gymuned.

## 3. Y Fframwaith Cyfreithiol

**3.1** Mae'r fframwaith cyfreithiol yn gymhleth ac mae'n newid yn aml o ganlyniad i ddeddfwriaeth sylfaenol newydd a chyfraith achos esblygol. Y ddeddfwriaeth sylfaenol yw Rheoliadau Contractau Cyhoeddus y Deyrnas Gyfunol 2006, sy'n adlewyrchu Cyfarwyddebau Cyfunol yr UE 2004. Yn unol â'r Ddeddf honno, rhaid dilyn trefniadau ledled Ewrop o ran contractau i gyflenwi nwyddau neu wasanaethau y mae eu gwerth dros eu hoes yn fwy na £156k. Ar gyfer contractau gwaith (gwaith adeiladu'n bennaf), rhaid i ni ddilyn prosesau o'r fath lle mae'r contract yn werth mwy na £3.9m. Os ydym yn gwario arian SCEC neu arian LlCC, gall terfynau is fod yn berthnasol. Mae'r Ddeddf yn diffinio'r agweddau tuag at dendro y mae modd i ni eu mabwysiadu, ac mae'n cynnwys rheolau caeth o ran hysbysebu, amserlenni ar gyfer gwahanol gamau yn y broses, y materion y mae modd i ni eu cymryd i ystyriaeth (ac na ellir eu cymryd i ystyriaeth) wrth ystyried cyflenwyr, sut i werthuso tendrau a sut i ddyfarnu tendrau. Dan y rheoliadau, mae disgwyl i ni lynu wrth nifer o'r materion hyn hyd yn oed pan ydym yn tendro am dendrau sy'n is na'r trothwy.

**3.2** Dan y ddeddfwriaeth, fe'n gwaherddir rhag gwahaniaethu rhwng cyflenwyr yn seiliedig ar eu lleoliad neu ar sail pa wlad maent yn dod ohoni. Fodd bynnag, oherwydd rhesymau gweithredol neu economaidd, mae adegau'n siŵr o godi pan na fydd ond modd darparu'r cyflenwad yn effeithiol neu'n economaidd gan sefydliad gyda chanolfan weithredol, a byddai modd cyfiawnhau, yn gwbl resymol, gynnwys amod i'r perwyl yn ein manylebau. Er enghraifft, rhaid i gyflenwyr gael cyfleuster lleol ar gyfer llawer o wasanaethau a ddarperir i'n trigolion, yn arbennig yn y maes gofal cymdeithasol. Yn yr un modd, byddai contract gwasanaeth gyda gofynion sydd wedi eu profi ar gyfer (dyweder) ymateb brys yn awgrymu bod rhaid cael cyfleuster gweithredol lleol. Mae modd i ni - ac mae'n rhaid i ni - sicrhau ein bod yn cymryd ein cyfrifoldebau dan y Ddeddf yr Iaith Gymraeg i ystyriaeth yn achos gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol i ddefnyddwyr ac, yn y fath achos, byddai'n rhaid i ddarparwr y gwasanaeth gyflogi nifer priodol o siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, byddai'n anghyfreithlon i ni wahaniaethu yn erbyn sefydliadau y mae rhywun o rywle arall yn **berchen arnynt ac yn eu rheoli**.

**3.3** Pan ydym yn tendro am gyflenwadau o nwyddau neu am wasanaethau, mewn cystadleuaeth agored, y ffactor sy'n penderfynu, ym mhob achos bron, wrth ddewis cyflenwyr, yw eu gallu a pha mor gystadleuol ydynt. Mae'r rhain yn faterion y mae'n rhaid i ni eu cymryd i ystyriaeth ac yn faterion hefyd nad oes gan y Cyngor, fel prynwr, unrhyw ddisgresiwn yn eu cylch.

## 4. Cydweithredu

**4.1** Mae pwrcasu cydweithredol hefyd yn bwysig wrth ystyried yr economi leol. Mae cydweithredu o ran trefnu contractau yn dod â manteision cost bron pob amser, ac yn yr hinsawdd economaidd gyfredol, mae hon yn ystyriaeth bwysig i'r Cyngor. Fel y dywedwyd, mae Llywodraeth Ganolog a LlCC yn rhoi pwys mawr ar y manteision ariannol sy'n codi o gydweithio, lle mae hynny'n bosib, a disgwylir i ni fynd ar drywydd trefniadau cydweithredol o'r fath. I'r perwyl hwn, mae'r Cyngor yn aelod o Bartneriaeth Pwrcasu Gogledd Cymru, sy'n cynnwys y chwe awdurdod lleol yn y rhanbarth ac mae'n gweithio gyda hwy i sicrhau manteision sy'n codi o gontractau cydweithredol. Mae ymgynghorwyr a benodwyd yn ddiweddar i adolygu gwaith y Bartneriaeth wedi cael tasg benodol, fel rhan o'u cylch gorchwyl, i ystyried busnesau bychan a chanolig yn eu hargymhellion.

**4.2** Mae tyndra anochel felly rhwng effaith bosib contractau o'r fath ar gyflenwyr lleol cyfredol a mabwysiadwyd nifer o strategaethau i leddfu'r effaith honno lle bynnag y mae hynny'n bosib. Mae'r rhain yn cynnwys ystyried strategaethau lotio (caniatáu i gyflenwyr ddewis rhan o'r rhanbarth os yw'n briodol); rhybudd sylweddol ymlaen llaw i gyflenwyr am gyfleon tendro, gan gynnwys digwyddiadau briffio; gweithio gyda Menter a Busnes sy'n cefnogi cyflenwyr i baratoi bidiau; rhoi atborth i gyflenwyr pan fônt yn aflwyddiannus fel bod modd iddynt wella eu perfformiad bidio; a chefnogi Menter a Busnes mewn digwyddiadau "Cwrdd â'r Prynwr" rheolaidd a gynhelir ar draws y rhanbarth.

**4.3** Er dilyn y dull hwn o weithredu ar gyfer prosiectau cydweithredol ledled y rhanbarth, efallai ei fod yn wir dweud nad yw awdurdodau unigol wedi mabwysiadu'r drefn hon i'r un graddau mewn perthynas â'u trefniadau pwrcasu eu hunain. Mae hyn yn rhannol oherwydd materion adnoddau, ond efallai yn bwysicach oherwydd diffyg eglurder ynghylch rhaglenni pwrcasu'r unedau busnes yn y dyfodol o fewn y Cynghorau. Wrth i Gynlluniau Busnes a Chynlluniau Tymor Canol ymsefydlu, gall dull o'r fath, gyda mewnbwn gan Pwrcasu Corfforaethol, Adfywio ac asiantaethau cymorth allanol eraill fod o fudd i gyflenwyr lleol.

**4.4** Mae'n werth nodi hefyd bod cydweithwyr yn y meysydd Adfywio ac yn LlCC eisoes yn edrych ar yr hyn a elwir yn "wagleoedd cyflenwi". Mae hwn yn waith cymhleth sy'n ceisio nodi'r meysydd gwariant mwy lle mae cwmnïau yn bodoli yng Nghymru, ond lle mae'r arian yn mynd i sefydliadau mewn ardaloedd eraill. Fel y dywedwyd eisoes, dadansoddiad gor-syml yw hwn, oherwydd ei fod, yn y lle cyntaf, yn anwybyddu lle mae'r <u>budd</u> o'r gwariant yn mynd, ond mae'n braenaru'r ffordd i ymchwilio i'r rhesymau pam nad yw cwmnïau yng Nghymru yn ceisio ennill y gwaith neu pam nad ydynt yn llwyddo i gael y gwaith hwnnw.

**4.5** Mae LlCC yn annog y sector cyhoeddus yng Nghymru i fabwysiadu amrediad o atebion TGCh ar gyfer pwrcasu. Mae'r awdurdod hwn eisoes wedi gwneud hynny o ran defnyddio technoleg sy'n seiliedig ar y we i ddelio gyda rhai cyflwyniadau tendro, ac yn gyffredin gydag eraill yn y rhanbarth, mae wedi cael llwyddiant sylweddol trwy ddefnyddio arwerthiannau electronig ar gyfer contractau trafnidiaeth. (Mae'r profiad hwnnw'n cael ei ddefnyddio yn awr fel model o arfer da ar draws Cymru). Mae hyder y gellir defnyddio'r dulliau arbennig hyn gyda mantais, ac nad ydynt yn anfantais i gyflenwyr lleol yn rhai o'n meysydd pwrcasu.

**4.6** Fodd bynnag, mae LlCC hefyd yn hyrwyddo'r defnydd o systemau archebu electronig, sy'n golygu bod rhaid i gyflenwyr gynnal catalogau a rhestrau prisiau ar-lein, derbyn archebion electronig a chyflwyno anfonebau electronig. Mae swyddogion yn amau y gallai mabwysiadu trefniadau o'r fath fod yn anfantais i lawer o'n cyflenwyr cyfredol ac, ar hyn o bryd, maent yn gochel rhag mabwysiadu teclynnau archebu o'r fath yn gyfan gwbl ac ni fyddai'r Cyngor yn gallu manteisio'n llawn arnynt hyd nes y bydd wedi cael systemau ariannol allweddol newydd.

## 5. Argymhelliad:

(i) Nodi'r adroddiad.

**EINIR WYN THOMAS**

**PENNAETH GWASANAETH CYLLID** **6 MAI 2011**